
Brig y Goeden

# Y Merched Mewn Mwgwd

JOHN COLDWELL



# Y Merched Mewn Mwgwd

JOHN COLDWELL

Lluniau gan Joseph Sharples



DRAKE


# 1



Roedd problem yn y castell.

"Rydw i wedi cael llond bol," meddai Mrs Parri, y lanhawraig frenhinol. "Mae yma ormod o waith i un person ei wneud."

Rhoddodd Mrs Parri allweddi'r castell i'r Frenhines Non, ac i ffwrdd â hi.



Dywedodd y Frenhines Non wrth weddill y teulu beth oedd wedi digwydd.

"Beth wnawn ni?" gofynnodd y Dywysoges Rhian.

"Wel i ddechrau arni, chaiff dy ffrindiau di ddim dod draw yma," meddai'r Frenhines Non.

"Pam?" holodd y Dywysoges Rhian.

"Maen nhw'n gwneud gormod o lanast."





"Efallai y medrwn ni i gyd wneud ymdrech i gadw'r castell yn daclus," meddai'r Brenin Harri. "Mae Capten Jones a Capten Ifans yn siwr o helpu. Medra i hyd yn oed wneud tipyn o olchi."

"Beth?" gwaeddodd y Frenhines Non. "A chael pobl yn dweud fod y Brenin Harri yn glanhau ei gastell ei hun? Byth bythoedd!"




"Medrwn ni hysbysebu am rywun i lanhau," meddai'r Dywysoges Rhian.

"Syniad da," meddai'r Frenhines Non. "Sgwenna hysbyseb ar unwaith."


Ysgrifennodd y Dywysoges Rhian hysbyseb. Rhoddodd hi ar ddrws y castell.





Aeth dyddiau heibio ond ddaeth neb i holi ynghylch y gwaith glanhau. Aeth y castell yn futrach ac yn futrach. Doedd dim rhagor o ddillad glân a dim rhagor o lestri glân.

Un bore clywodd y Frenhines Non sŵn canu yn dod o'r gegin. Edrychodd o amgylch y drws. Gwelodd rywbeth dychrynllyd.





Dyna lle roedd y Brenin Harri wrthi'n golchi llestri yn y sinc. Roedd Capten Ifans yn golchi'r llawr. Roedd Capten Jones yn golchi'r crysau brenhinol.





"Rhowch y gorau iddi'r munud yma!" gwaeddodd y Frenhines Non. "Nid gwaith i frenin a'i gapteiniaid ydi hyn. Dylech chi fod allan yn hela draig."

"Welodd 'run ohonon ni ddraig erioed, cariad," meddai'r Brenin.

"Fuoch chi erioed yn chwilio am un chwaith," meddai'r Frenhines Non.




Am ei bod wedi cynhyrfu gymaint, penderfynodd y Frenhines gychwyn ar daith frenhinol y munud hwnnw. “A pheidiwch chi’ch tri hyd yn oed â meddwl am wneud y glanhau,” meddai. “Ewch i chwilio.”

“Chwilio?” gofynnodd y Brenin gan welwi. “Chwilio am ddraig?”




“Iawn, cewch chi chwilio am ddraig hefyd,” meddai’r Frenhines Non. “Ond yr angen mwyaf ydi cael hyd i rywun i lanhau.”

“Beth amdana i?” gofynnodd y Dywysoges.

“Cei di aros gartre. A phaid â gadael i ladron ddod i mewn. Na dy ffrindiau.”

Anfonodd y Frenhines Non am ei chesys brenhinol a chychwynnodd ar ei thaith frenhinol.



I ffwrdd â'r Brenin Harri, Capten Jones a Capten Ifans i chwilio am rywun i lanhau. Roedd golwg digon digalon ar y tri.

Cododd y Dywysoges ei llaw arnyn nhw. "Dydi o ddim yn deg," snwffiodd. "Mae pawb yn mynd ar daith neu i chwilio ac yn fy ngadael i yn yr hen gastell drewllyd yma."



# 2



Gwthiodd y Dywysoges Rhian ei gwefus isaf allan a phwdu go iawn.

Roedd hi newydd orffen pwdu pan ddaeth cnoc ar ddrws y castell.

Agorodd y Dywysoges Rhian y drws. Safai tri pherson yn gwisgo mygydau yno.



“Y Merched Mewn Mwgwd wedi dod i lanhau ydan ni,” meddai un.

“Dy dad di, y Brenin Harri, sydd wedi ein hanfon ni,” meddai un arall.

“Dyna sydyn,” meddai’r Dywysoges Rhian. “Ble mae fy nhad?”

“Yn chwilio am ddraig,” meddai’r trydydd person mewn mwgwd.






“Pam rydach chi’n gwisgo mwgwd?” holodd y Dywysoges Rhian.

“Mae’n rhaid inni amddiffyn ein hunain rhag y llwch,” meddai un. “Gawn ni gychwyn?”

Drwy’r dydd bu’r Merched Mewn Mwgwd yn sgrwbio a dystio, golchi a pholisho. Erbyn gyda’r nos, roedd y castell fel pin mewn papur.



"Mae'r castell yn lân erbyn hyn, felly medrwch chi dynnu eich mygydau," meddai'r Dywysoges Rhian.

"O, na," meddai un. "Fedrwn ni ddim."

"Pam?" mynnodd y Dywysoges Rhian.

"Ym, ym," meddai un arall. "Os tynnwn ni'n mygydau nid Merched Mewn Mwgwd fyddwn ni."





Dechreuodd y Dywysoges feddwl yn galed. Byddai lladron yn gwisgo mygydau yn aml. Roedd y Frenhines wedi dweud wrthi am beidio â gadael i ladron ddod i mewn i'r castell.

Drannoeth ceisiodd y Dywysoges ddarganfod pwy oedd y Merched Mewn Mwgwd.





Yn y gegin roedd y Ferch Mewn Mwgwd gyntaf wrthi'n gwthio pentwr o grysau budron i'r peiriant golchi.

"Hm," meddai hi. "Be wna i efo'r lliain bwrdd yma? Ei olchi o ar 'Poeth' neu 'Poeth iawn'?"

Daeth y Dywysoges Rhian ati o'r tu cefn. Cipiodd y lliain bwrdd a'i dynnu dros ben y lanhawraig.

"Help!" cwynodd y lanhawraig yn fyglyd. "Ble rydw i?"





Roedd yr ail Ferch Mewn Mwgwd wrthi'n sgwrio lloriau'r dyfnjwn.

"Esgusodwch fi," meddai'r Dywysoges Rhian gan sefyll y tu allan i un o'r celloedd. "Ond mae hi'n fudr iawn i mewn yma."




“Sgubais i fanna dim ond pum munud yn ôl,” meddai’r ail lanhawraig. “Gad imi weld.”

Cerddodd i mewn i’r gell.

Caeodd y Dywysoges Rhian y drws a rhoi tro ar yr allwedd.





Roedd y drydedd lanhawraig yn gwneud andros o sŵn efo’r peiriant sugno llwch. Welodd hi ddim fod y Dywysoges Rhian wedi sleifio y tu ôl iddi. Cipiodd y Dywysoges Rhian y peiriant. Anelodd drwyn y beipen at y lanhawraig.



“Dim cam pellach,” gwaeddodd y Dywysoges Rhian, “neu mi sugna i chi i mewn i’r peiriant. Rŵan. Tynnwch eich mwgwd.”

Yn araf, tynnodd y lanhawraig ei mwgwd.

“Dad!” gwaeddodd y Dywysoges Rhian.

A phwy oedd y ddwy lanhawraig arall ond Capten Jones a Capten Ifans.




# 3



“Dwi’n meddwl fod yn well ichi egluro,” meddai’r Dywysoges Rhian.

“Wel,” meddai’r Brenin Harri, “fe gychwynnon ni i chwilio. Pan gyrhaeddon ni’r goedwig fe welson ni ddraig.”




“Rydan ni’n meddwl inni weld draig,” meddai Capten Jones.

“Clywson ni rywbeth yn symud yn y coed beth bynnag,” meddai Capten Ifans, “ac roedd yn swnio’n debyg i ddraig.”

“Felly roedden ni’n teimlo fod yn well inni ddod adref,” meddai Capten Jones.

“Gwisgon ni amdanom fel gwragedd glanhau,” meddai Capten Ifans.






“Rydan ni’n eitha hoff o wneud gwaith tŷ,” meddai’r Brenin. “Rydan ni’n hoffi ogla polish.”

“Rydan ni’n hoffi sŵn y peiriant sugno llwch,” meddai Capten Jones.

“Rydan ni’n hoffi teimlad sebon,” meddai Capten Ifans.

“Ac mae’n llawer llai peryglus nag ymladd efo dreigiau,” ychwanegodd y Brenin Harri.

“Mae dreigiau yn brin iawn,” meddai Capten Jones. “Dydi o ddim yn deg eu hela nhw.”



“Hm,” meddai’r Dywysoges. “Rydych chi wedi dweud celwyddau. Dad, rwyt ti bob amser wedi dweud wrtha i am ddweud y gwir.”

“Mae’n ddrwg iawn gen i,” meddai’r Brenin.

“Beth fydd y Frenhines yn ei ddweud? Pan glyw hi nad ydach chi wedi cael hyd i neb i lanhau nac wedi ymladd efo unrhyw ddraig,” meddai’r Dywysoges Rhian, “bydd hi’n eich gyrru chi i ffwrdd am flwyddyn i chwilio am ddraig.”





Gwelwodd wynebau’r tri.

“Paid â dweud wrthi,” crefon nhw.

“Ddyweda i ddim…” meddai’r Dywysoges Rhian “Os…”

“Os beth?”

“Os caiff fy ffrindiau i ddod draw i chwarae.”

“Cytuno,” meddai’r Brenin Harri.




Drannoeth daeth y Frenhines Non yn ôl wedi bod ar ei thaith frenhinol. Roedd hi'n falch iawn o weld y castell fel pin mewn papur.

"Felly," meddai hi. "Llwyddoch chi! Pwy gawsoch chi i ddod yma i lanhau?"

"Tair glanhawraig," meddai'r Brenin Harri.

"Yn gwisgo mygydau," meddai Capten Jones.





"Dim ond ar ddydd Llun maen nhw'n medru dod," meddai Capten Ifans.

"Pam?" holodd y Frenhines Non.

"Cael rhyw drafferth efo dreigiau maen nhw," atebodd y Dywysoges Rhian. "Mae Dad a'r ddau gapten yn mynd i ymladd y dreigiau bob dydd Llun tra mae'r merched yn dod i lanhau'r castell."


"Harri," meddai'r Frenhines Non. "Dwi mor falch ohonot ti."



"Gan fod gynnon ni lanhawyr iawn erbyn hyn," meddai'r Brenin Harri, "beth am adael i ffrindiau Rhian ddod draw yma eto?"

Cytunodd y Frenhines Non ar unwaith gan ei bod mor falch fod y castell yn lân ac yn daclus.

Bob dydd Llun mae'r Frenhines Non yn ffarwelio â'r Brenin Harri a'i ddau gapten ac maen nhw'n mynd i ymladd efo dreigiau. Mae ffrindiau'r Dywysoges Rhian yn dod yno i chwarae. Yn ddiweddarach, mae'r Merched Mewn Mwgwd yn dod i lanhau'r castell. Felly mae pawb yn hapus.



# *Am yr awdur*

Cefais fy ngeni yn Llundain yn 1950 ac yn awr rydw i'n byw ger y môr, yn Ramsgate. Gyda'r nos byddaf yn hoffi ysgrifennu storïau a barddoniaeth. Byddaf yn gwneud hyn yn ddistaw bach. Yna byddaf yn mynd i lawr y grisiau ac yn chwarae recordiau jazz yn uchel, uchel. Mae fy nheulu yn meddwl fy mod yn gwneud dau beth hurt iawn. Un ydi mynd allan i'r ardd bob nos i chwilio am lyffantod, madfallod dŵr a draenogod. Y llall ydi cefnogi Clwb Pêl-droed Gillingham.



**Llyfrau Brig y Goeden eraill ar y lefel hon:**

*Y Sgwinc* gan Rita Ray
*Bosgi Stryd y Coed* gan Rita Ray
*Shorts Jyngl* gan Irene Rawnsley
*Teigr Amryliw Mr Stofflys* gan Robin Mellor
*Tric y Merched Mewn Mwgwd* gan John Coldwell

# Y Merched Mewn Mwgwd

Sôn am lanast sydd yn y castell. Llestri budron, dillad drewllyd, llwch ym mhobman a neb wedi bod yn hela draig ers cantoedd.

Ydi hi'n bosib i'r Dywysoges Rhian a'r Brenin Harri roi trefn ar bethau â help y Merched Mewn Mwgwd rhyfeddol?



Brig y Goeden

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 10

ISBN 0-86174-434-9
9 780861 744343
ISBN 0 86174 434 9
DRAKE